OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3379

## Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr y mae "food authority" yn ei ddwyn yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac, ag eithrio pan ddangosir yn wahanol, mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr un ystyr ag sydd iddo yn y Ddeddf;

nid yw "gweithrediad masnachol" ("*commercial operation*") yn cynnwys allforio;

ystyr "jeli cwpanau bach sydd dan reolaeth" ("*controlled jelly mini-cups*") yw unrhyw jeli cwpanau bach sy'n cynnwys unrhyw un o'r ychwanegion bwyd perthnasol ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl;

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/374/EC sy'n atal dros dro osod ar y farchnad a mewnforio jeli cwpanau bach sy'n cynnwys yr ychwanegion bwyd E400, E401, E402, E403, E404, E405, E406, E407, E407a, E410, E412, E413, E414, E415, E417 ac/neu E418(**2**); ac

ystyr "yr ychwanegion bwyd perthnasol" ("*the relevant food additives*") yw'r ychwanegion bwyd E400: asid alginig; E401: sodiwm alginad; E402: potasiwm alginad; E403: amoniwm alginad: E404: calsiwm alginad; E405 propain 1,2-diol alginad E406: agar; E407: carragenan; E407a: gwymon euchema wedi'i brosesu; E410: gwm cnau carob; E412: gwm guar; E413; tragacanth; E414: gwm acasia; E415: gwm santhad; E417: gwm tara ac E418: gwm gelan.

(2) Mae i unrhyw derm a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac ym Mhenderfyniad y Comisiwn yr un ystyr ag sydd iddo ym Mhenderfyniad y Comisiwn.

(3) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cael eu neilltuo—

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**3**), i awdurdod iechyd porthladd;

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**4**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig; neu

(c) drwy orchymyn o dan baragraff 15(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985(**5**), i awdurdod sengl ar gyfer sir fetropolitanaidd,

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u neilltuo felly iddo.

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) OJ Rhif L118, 23.4.2004, t.70.
(**3**) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.
(**4**) 1936 p. 49; mae adran 6 i' w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.
(**5**) 1985 p. 51; diwygiwyd adran 15(6) gan baragraff 31(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.